

Cefnogi Teuluoedd mewn Angen: Astudiaeth Achos Ansoddol o'r Ymyrraeth Gofal Cymorth

Dr Louise Roberts

CASCADE Briff Ymychwil

Rhif 1: Gorffennaf 2014



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau
Cymdeithasol Caerdydd



CASCADE

Briff Ymychwil

Rhif 1: Gorffennaf 2014



Cefnogi Teuluoedd mewn Angen:

Astudiaeth Achos Ansoddol o'r Ymyrraeth Gofal Cymorth

Dr Louise Roberts.

Negesuon allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer

- Gwasanaeth hyblyg ac addasol yw Gofal Cymorth y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo teuluoedd sydd ag amrywiaeth o anghenion gofal cymdeithasol. Mae'n darparu seibiannau byr i blant y mae angen cymorth ar eu teuluoedd.
- Roedd teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn gwerthfawrogi'r model Gofal Cymorth. Roedd y model hwn yn cynnwys:
 - a) Ymdrechion dilys i ddatblygu perthnasoedd parchus a chefnogol gyda theuluoedd.
 - b) Darparu cymorth ystyrlon ac ymarferol.
- Ystyriwyd bod y gwasanaeth yn fesur diogelu pan dybiwyd bod

plant mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

- Mae natur tymor byr y gwasanaeth yn arwain at rai canlyniadau:
 - a) Caiff perthnasoedd cefnogol eu datblygu yn y gwasanaeth hwn ac yna maent yn dod i ben. Roedd torri cysylltiadau agos gyda gofalwyr cymorth yn heriol yn emosiynol i rai rhanddeiliaid, yn enwedig plant.
 - b) Mae rhai problemau teuluol yn hirsefydlog a chymhleth ac mae'n debygol y bydd angen cymorth tymor hwy arnynt.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u seilio ar ddyluniad ymchwil astudiaeth achos ansoddol. Cynhaliwyd 82 cyfweiliad a 22 arsylwad yn ystod deg lleoliad gofal cymorth.



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau
Cymdeithasol Caerdydd



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD



Beth yw Gofal Cymorth?

Ymyrraeth gefnogol yw Gofal Cymorth ar gyfer teuluoedd sydd mewn argyfwng ac mewn perygl o chwalu. Mae wedi bod ar waith ers y 1990au. Fe'i hyrwyddwyd gan y Rhwydwaith Maethu ac fe'i datblygwyd gan asiantaethau awdurdod lleol a darparwyr gwasanaeth ledled Cymru a Lloegr. Mae'r gwasanaeth ynparu teuluoedd â gofalydd cymorth, y disgwylir y bydd yn ymgysylltu â rhieni a darparu seibiannau byr rheolaidd ar gyfer plant a phobl ifanc. Er bod y gwasanaeth hwn yn hyblyg, mae cyfyngiad amser iddo ac mae cyfnodau ymyrryd nodweddiadol yn para rhwng chwech a deuddeg mis.

Yr astudiaeth ymchwil

Astudiaeth achos ansoddol oedd hon. Dilynwyd deg lleoliad gofal cymorth unigol mewn tri chynllun gofal cymorth sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr o'r dechrau i'r diwedd. Cymerodd gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr cymorth, rhieni, plant a phobl ifanc ran yn yr ymchwil. Y prif ddulliau ymchwil oedd cyfweiliadau lled-strwythuredig unigol ac arsylwi cyfranogwyr.

Diben yr ymchwil oedd deall sut yr oedd Gofal Cymorth yn cael ei ddarparu, y canfyddiad a'r profiad ohono, a sut yr oedd yn ceisio lliniaru anawsterau teuluol.

Priodoleddau cadarnhaol y gwasanaeth

- Gwasanaeth hyblyg i fodloni anghenion unigol
- Roedd y rhan fwyaf o rieni o'r farn ei fod yn gynorthwyol ac roedd plant yn mwynhau'r profiad
- Adroddodd rhieni a phlant am fuddion yn y rhan fwyaf o achosion, fel gwell perthnasoedd
- Roedd wedi helpu gweithwyr cymdeithasol i ddeall anghenion teuluoedd yn fanylach

Roedd y teuluoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil oll dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd. Roedd hyn yn cynnwys rhwydweithiau cymorth annigonol, perthnasoedd ansefydlog a thanllyd, yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl a chorfforol. Canfuwyd bod gofal cymorth yn wasanaeth hyblyg ac ymatebol y gellid ei ddefnyddio i gynorthwyo teuluoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Roedd hyn yn cynnwys ymdrechion i ddarparu rhyddhad dros dro o galedi

ynghyd â chyfleoedd i gynnig cymorth mwy penodol i rieni a phlant. O ran gweithwyr cymdeithasol plant a

teuluoedd, roedd darparu'r gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth a mesurau diogelwch ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o gamdriniaeth. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol o'r enw Julie fod y gwasanaeth wedi darparu "rhywfaint o wybodaeth dda iawn o ran gallu [rhieni] i ddarparu amgylchedd diogel, sefydlog ... ac i ymgysylltu'n briodol â gwahanol weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos".

Tyndra mewn ymarfer

- Gwelwyd tyndra rhwng darparu digon o gymorth ac osgoi dibynnu ar wasanaeth a fyddai'n dod i ben
- Roedd rhai problemau'n rhy gymhleth i weld gwelliannau o fewn y cyfyngiadau amser
- Nid oedd rhai plant a rhieni am i'r gwasanaeth ddod i ben

Roedd themâu allweddol yn ystod yr ymchwil yn cynnwys swyddogaethau a nodweddion graddfeydd amser o fewn y gwasanaeth, y perthnasoedd a ddatblygwyd yn ystod yr ymyrraeth ac ymdrechion i gynorthwyo teuluoedd tuag at lefelau 'digon da' o weithredu. Datgelodd yr ymchwil dyndra cynhenid mewn ymdrechion i roi amser priodol i deuluoedd er mwyn darparu cymorth ystyrlon ar yr un pryd ag osgoi dibyniaeth ar y gwasanaeth.



Tynnodd Ben (8 oed) lun o'r tegan meddal yr oedd yn cysgu ag ef tra'r oedd yng nghartref ei ofalwr cymorth.



Perthnasoedd a hwyluso newid

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu bod gofal cymorth yn cael ei werthfawrogi gan deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol. Roedd y cymorth ymarferol a gynigiwyd i rieni yn cael ei gydnabod yn gadarnhaol, ac felly hefyd ymdrechion i ddatblygu perthnasoedd cefnogol a pharchus gyda phlant a rhieni. Dywedodd Nicola [mam]: "*Mae hi fel ffrind mewn gwirionedd. Yn y dechrau, ro'n i'n nerfus iawn gan nad oeddwn i wedi gadael fy mhlant gydag unrhyw un. Ond cyn gynted ag i mi gyfarfod â hi, ro'n i'n gwybod...*" Mewn rhai achosion, roedd y perthnasoedd cadarnhaol a anogwyd yn newid wrth i rieni teimlo eu bod yn gallu myfyrio ar eu sgiliau rhianta a cheisio cyngor gan y gofalydd. Wrth fyfyrion ar ei chysylltiad gyda theulu, dywedodd Rachel, sy'n ofalydd cymorth: "*roedd eu ffordd o gyfathrebu'n wahanol i'n un ni... Roeddwn i'n arfer treulio amser yn siarad â Mam ac fe ddywedodd 'Galla' i weld bod angen i mi dawelu yn y ffordd rwy'n siarad â hi. Rwy'n mynd mor ddig fel ei bod yn troi'n frwydr sgrechian*". Fodd bynnag, mewn achosion eraill, roedd ymdrechion i gynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni yn rhwystro gofalwyr rhag cyfathrebu'n agored rhag ofn y byddent yn achosi sarhad.

Yn ystod y seibiannau byr, arsylwyd bod gofalwyr cymorth yn annog datblygiad plant ac ymddygiad cadarnhaol. Roedd plant a phobl ifanc hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Roedd rhai o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i fod yn rhai 'realistig' y gellid eu hailadrodd o fewn y teulu, tra bod eraill wedi'u cynllunio i 'gyfoethogi' bywydau'r plant.

Diweddu a chanlyniadau

O ganlyniad i'r perthnasoedd cadarnhaol a sefydlwyd yn ystod lleoliadau gofal cymorth, roedd y ffaith bod cyfyngiad amser yn berthnasol i'r gwasanaeth yn heriol yn emosiynol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn plant. Er enghraifft, dywedodd Aaron (wyth oed): "*Rwy'n eu colli nhw...byddwn i'n cadw i fynd petawn i'n gallu. Byddwn i'n mynd yn ôl a chadw'u gweld nhw, petawn i'n cael gwneud hynny.*" Yn aml, gwelwyd bod problemau teuluol yn parhau neu'n esblygu ar adeg diweddu'r gwasanaeth, yn hytrach nag wedi'u datrys yn llawn. I rai teuluoedd, roedd y gofal cymorth a ddarparwyd yn gynorthwyol tra'i fod ar gael, ond nid oedd yn ddigonol i gyflawni newid hirsefydlog.



A sunflower grown by Ben over the course of his support care placement.

Manylion ychwanegol

Cynhaliwyd y prosiect ymchwil hwn yn rhan o ysgoloriaeth ymchwil PhD ym Mhrifysgol Caerdydd ac fe'i hariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Mae copi electronig o'r traethawd ymchwil llawn wedi'i adneuo yn ystorfa sefydliadol Prifysgol Caerdydd, sef OnlineResearch@Cardiff (ORCA). Gellir cyrchu'r ystorfa hon trwy <http://orca.caerdydd.ac.uk>. Fel arall, anfonwch neges e-bost at Louise Roberts, RobertsL18@caerdydd.ac.uk.

Cyhoeddiad: Roberts, L. 2011 'Ending Care Relationships: Carer Perspectives on Managing 'Endings' Within a Part-time Fostering Service'. *Adoption & Fostering* 35, 4, 20-28.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ofal cymorth trwy www.fostering.net/all-aboutfostering/foster-carers/support-care.



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau
Cymdeithasol Caerdydd

